LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Mae'r fersiwn digidol hwn o'r erthygl/cylchgrawn wedi'i greu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru.

NODER y gall cyfyngiadau hawlfraint ac amodau trwydded fod yn berthnasol. Am ragor o wybodaeth, ewch i **Mwy o Wybodaeth** wrth ddarllen y cylchgrawn ar wefan Cylchgronau Cymru (cylchgronau.llyfrgell.cymru).

Efallai y bydd hefyd gennych ddiddordeb yn Papurau Newydd Cymru (papuraunewydd.llyfrgell.cymru), chwaer-wefan gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n rhoi mynediad i dros 1.1 milwn o dudalennau o dros 130 o bapurau newydd a gyhoeddwyd rhwng 1805 a 1919.

This digital version of the article/journal has been created by The National Library of Wales.

PLEASE NOTE that copyright restrictions and license terms may apply. For more information, view **More Information** when reading the journal on the Welsh Journals (journals.library.wales) website.

You may also be interested in Welsh Newspapers (newspapers.library.wales), a sister-site from the National Library of Wales that gives access to over 1.1 million pages from over 130 newspapers published between 1805 and 1919.

Jisc

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

europeana

ERDF
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich dyfodol
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your future
European Regional Development Fund

# *O'r Bala i Dde Affrica*
## *Taith Wleidyddol Tom Ellis (1886-92)*

Ar 19 Mawrth 1886, yn ei araith olaf yn Nhŷ'r Cyffredin, cyflwynodd yr 'Apostol Heddwch', Henry Richard, benderfyniad a allai fod wedi newid hanes y byd:

> That in the opinion of this House, it is neither just nor expedient to embark on war contract engagements involving grave responsibilities, or to add territories to the Empire, without the knowledge and consent of Parliament.[1]

Ymosododd Richard ar y 'mania' am diriogaethau, dywedodd fod Lloegr yn berchen ar un-rhan-o-bump o wyneb y ddaear a chondemniodd 'filitariaeth' llywodraethau Ewrop. Cefnogwyd ef gan Henry Labouchere (1831-1912), arweinydd asgell 'Lloegr Fach' y Rhyddfrydwyr Seisnig.[2] Collwyd y bleidlais gan fwyafrif o bedwar yn unig (112-108). Yn ôl un arbenigwr ar hanes Imperialaeth, A. P. Thornton: 'had it been carried, the history of the next thirty years might well have been absolutely otherwise.'[3]

Fodd bynnag, nid felly y bu; Imperialaeth oedd *Zeitgeist* y cyfnod. Gellir gweld y seiliau ideolegol yn llyfrau Charles Dilke, *Greater Britain* (1868); John Seeley, *The Expansion of England* (1883) a J. A. Froude, *Oceana, or England and her Colonies* (1886). Magwyd yr ysbryd goruchafol mewn nofelau megis *King Solomon's Mines* (1885) gan Rider Haggard (1856-1925) a cherddi Prifardd Imperialaeth, Rudyard Kipling (1865-1936). 'Roedd haen gref o hiliaeth (*racism*) yn yr Imperialaeth hon: 'roedd Dilke, er enghraifft, yn proffwydo yn 1868 y byddai 370 miliwn o 'Eingl-Sacsoniaid' ym 'Mhrydain Fwy', erbyn 1970.[4] Mewn awyrgylch fel hwn, 'roedd llais Henry Richard fel un yn llefain yn yr anialwch.

Yn sicr, ni chafodd Richard gefnogaeth yr Ysgrifennydd Tramor

Rhyddfrydol, Archibald Primrose, Pumed Iarll Rosebery (1847-1929), sylfaenydd Rhyddfrydiaeth Imperialaidd. Apwyntiwyd Rosebery yn Ysgrifennydd Tramor gan Gladstone yn Chwefror 1886 pan oedd yn 39, a gellir dyddio Rhyddfrydiaeth Imperialaidd o'r apwyntiad hwnnw, oblegid cyhoeddodd Rosebery bolisi o 'barhad' ('*continuity*') gyda pholisi Imperialaidd y Ceidwadwyr: 'our foreign policy has become more of a colonial policy'.[5] O amgylch Rosebery, ymgaslodd grŵp o Aelodau Seneddol Rhyddfrydol: R. B. Haldane (1856-1928), Edward Grey (1862-1933), H. H. Asquith (1852-1928) ac eraill. Adnabuwyd y grŵp dan y teitl, 'Rhyddfrydwyr Imperialaidd', a'u prif glwb oedd y 'Clwb Wythdeg'.[6] 'Roeddynt yn credu y dylid cael polisi unedig ar yr Ymerodraeth, beth bynnag oedd y gwahaniaethau rhwng y pleidiau ar bolisi cartref.

Oherwydd fod y Cymry, fel y cyfryw, yn llai imperialaidd na'r Saeson a'r Albanwyr, nid yw hynny'n golygu nad oedd y ffasiwn beth ag imperialaeth Gymreig. Wedi'r cyfan, onid un o Gymry Llundain, Dr. John Dee (1527-1608) a fathodd y term, 'Ymerodraeth Brydeinig'?[7] Cymerodd gwŷr busnes a chenhadon Cymreig ran yn yr Ymerodraeth, fel cyd-imperialwyr (*co-imperialists*) gyda'r Saeson. Mae papurau newydd Cymreig y ganrif olaf yn tystiolaethu mai lleiafrif oedd y gwrth-imperialwyr.[8]

Mor fuan â 1886, gwelir yn yr ymateb Cymreig i H. M. Stanley[9] fod haen bendant o falchder imperialaidd yn y boblogaeth: 'Y mae yn cael cynulleidfaoedd mawrion, a derbyniad brwdfrydig lle bynnag yr ymwela.'[10] 'Roedd Stanley yn fwy na 'theithiwr Affricanaidd', 'roedd yn asiant i'r Ymerodraeth Brydeinig yn Uganda ac i'r Brenin Leopold Belg yn y Congo.[11] Safodd Stanley fel ymgeisydd seneddol i'r Rhyddfrydwyr Unoliaethol yn 1892, heb lwyddiant; etholwyd ef yn Aelod Seneddol Gogledd Lambeth yn 1895.

'Roedd rhai Aelodau Seneddol Cymreig yn imperialwyr agored yn yr wythdegau; er enghraifft, Aelod Seneddol Caerdydd, Syr Edward Reed, a ymunodd â'r Rhyddfrydwyr Unoliaethol[12] yn 1905; A.S. Bwrdeistrefi Caerfyrddin, Syr Arthur Cowell-Stepney, a ymunodd â'r Rhyddfrydwyr Unoliaethol yn 1891 a W. Pritchard Morgan, A.S. Merthyr. Etholwyd Morgan mewn is-etholiad yn Hydref 1888, yn dilyn marwolaeth Henry Richard.[13] Prif wrthwynebydd Morgan oedd ymgeisydd Cymru Fydd, R. Ffoulkes-Griffith, Q.C.[14] Er gwaethaf cefnogaeth Tom Ellis, D. A. Thomas a Mabon i Ffoulkes-Griffith, cipiwyd y sedd gan Morgan fel Rhyddfrydwr Annibynnol â 7,149 pleidlais i 4,956 – oherwydd cefnogaeth yr Unoliaethwyr lleol i'w agweddau imperialaidd. 'Roedd hyn yn arwydd bygythiol i Gymru Fydd – y posibilrwydd y gallasai Imperialaeth Newydd fod yn gryfach na Rhyddfrydiaeth Newydd hyd yn oed yng Nghymru – a hyd yn oed ym Merthyr.

Fodd bynnag, grŵp bach, anghysylltiedig o dri oedd yr Aelodau

Seneddol hyn. Prin yr oedd gan un ohonynt ddylanwad cyffredinol ar wleidyddiaeth Cymru – fel Tom Ellis, er enghraifft. Ni ellid meddwl am imperialwr llai nag arweinydd Cymru Fydd yn yr wythdegau. Ond, yn syfrdanol, erbyn 1892, byddai Tom Ellis ei hun yn cael ei gyfrif yn Rhyddfrydwr Imperialaidd. Sut y gallai radical Cymreig yr wythdegau fynd i wersyll yr Imperialwyr yn y degawd canlynol?

Yn 1890, yn sicr, yr oedd yn iach yn y ffydd radicalaidd Gymreig, er dioddef typhoid yn yr Aifft. Cyhoeddwyd llythyr o wely claf Ellis yng ngwesty Luxor, at Owen Edwards, a ddangosai fod ei feddwl yn llawn o Gymru:

> Rwy'n gweled yn glir na chaiff Cymru ei gwared o afael Llundain hyd nes y cawn Brifysgol i Gymru. Yr wyf yn distaw gredu, pe bai y Colegau ac addysgwyr Cymru yn gwneud egni, yn crynhoi eu nerth ac yn gwneud y trefniadau angenrheidiol, y gallem gael Prifysgol mewn dwy neu dair blynedd.[15]

'Roedd ei broffwydoliaeth yn gywir: sefydlwyd Prifysgol Cymru yn 1893. Ar Ddydd Gŵyl Dewi 1890, yn dal yn ei wely yn Luxor, cododd ei feddyliau am Gymru at lefel gweledigaeth:

> Meddwl llawer am Gymru heddiw. Fy nghyd-genedl drwy'r byd heddiw yn falch o'u Cymreigyddiaeth ac yn llawn awydd i wneud rhywbeth dros Gymru. Dyma'r flwyddyn a dyma'r Dydd Gŵyl Dewi y cefais fwyaf o hamdden i feddwl am Gymru, ei hanghenion, ei gobeithion, a dyledswydd ei meibion a'i merched . . . Hyd yn oed pe ceid yr Eglwys yn rhydd oddiwrth y Llywodraeth, a'r ysgolion a'r tir yn nwylaw y bobl, eto *rhyddid fyddai hynny heb unoliaeth*. Er mwyn cael *unoliaeth* rhaid cael Senedd, Prifysgol a Theml i Cymru. Dyma fy adduned heddiw – i weithio hyd angau i enill *Unoliaeth i Gymru* yn ystyr lawnaf y gair. Rhodded Duw nerth i mi i fod yn ffyddlon i'r adduned hon. *ADDYSG–RHYDDID–UNOLIAETH.*[16]

'Roedd salwch Ellis wedi achosi pryder i Ryddfrydwyr Cymru, a chasglwyd arian ar ei gyfer pan ddaeth adref. Cyflwynwyd Tysteb iddo, siec am £1000, mewn cyfarfod mawr yn y Bala ar 18 Medi 1890. Mae'r araith derbyn a roddodd Ellis yn un o'i areithiau pwysicaf. Yn gyntaf, disgrifiodd y datblygiad yn y pum mlynedd oddi ar 1886:

> Y deffroad crefyddol a chenedlaethol, a elwir, o achos bodolaeth Eglwys Sefydledig Seisnig, yn Anghydffurfiaeth, a'r deffroad politicaidd, sydd wedi nodweddu y chwarter olaf o'r ganrif ac wedi bod mor arbennig o amlwg er 1886. Blwyddyn bwysig oedd honno i Gymru.[17]

Y ddau allu cyfoes cryfaf yng Nghymru oedd 'brawdgarwch a

chenedlaetholdeb', ac 'i'r ddwy wyddor hon y bu Cymru yn bur yn 1886.' 'Roedd Cynghorau Sir yn paratoi y ffordd at gael perffeithio hawl cenedl i reoli ei materion ei hun, ac ar ei daear ei hun. Tanlinellodd agwedd ffederalaidd, ryngwladol Cymru Fydd:

> Er mor awyddus y byddem i gyfranogi o fywyd a meddwl cyffredin dynoliaeth, i Gymru y mae ein prif ddyletswydd; i Gymru mae ein teyrngarwch pennaf, a'i buddiannau hi sy'n rhoddi inni ein gobaith mwyaf. Gweithiwn er mwyn cyflenwi ei hangenion arbennig hi.[18]

Ac yna, daeth i'w berorasiwn:

> Dros y pethau hyn y gweithiwn, ond, yn bennaf bwysicaf oll, gweithiwn dros Gynulliad Deddfwriaethol, wedi ei hethol gan ddynion a merched Cymru, ac yn gyfrifol iddyn hwy. Bydd yn symbol ac yn rhwymyn o'n hundeb cenedlaethol, yn erfyn i weithio allan ddelfrydau cymdeithasol a buddiannau diwydiannol . . . yn gennad i'n neges a'n hesiampl i'r ddynoliaeth, yn fan cyfarfod i'n cenedligrwydd, yn ymgorfforiad ac yn gyflawniad o'n gobaith fel pobl.[19]

Hwn oedd pinacl gweledigaeth Tom Ellis o Gymru Fydd. Y mis canlynol, ar 29 Hydref, hwyliodd am wyliau chwe mis, dros y gaeaf, yn Ne Affrica. Hwyliodd gyda Mary Owen, cariad ei ffrind, Ellis Griffith (a oedd hithau, hefyd, yn wael ei hiechyd). Ar y fordaith, darllenodd Ellis lyfrau am yr imperialydd John Ruskin (1819-1900) a chanddo, *Studies in Ruskin* gan E. T. Cook a *Time and Tide* (1867). 'Roedd wedi hwylio 6272 o filltiroedd erbyn iddo gyrraedd Cape Town ar 26 Tachwedd 1890. Daeth dirprwyaeth o Gymry Cape Town i gyfarfod ag ef gyda 'theligram croesawgar oddi wrth Gymry Kimberley yn fy ngwahodd i ymweled a'm cyd-genedl ym maesydd yr adamant.'[21] 'Roedd Cymry Cape Town wedi dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn gynharach yn y flwyddyn, mewn awyrgylch imperialaidd dros ben.[22]

Gydag ef yn ei god 'roedd gan Ellis lythyr o gyflwyniad oddi wrth Charles Dilke i Brif Weinidog newydd y Penrhyn, Cecil Rhodes.[23] Ganwyd Cecil John Rhodes (1853-1902) yn Bishop's Stortford, De Lloegr, yn fab i Weinidog Anglicanaidd. Aeth i Rydychen, lle daeth dan ddylanwad araith Ruskin yn 1872 yn dadlau mai'r ffordd i ddatrys diweithdra oedd trwy ehangu'r Ymerodraeth. Aeth Rhodes i Dde Affrica i ddechrau am yr un rheswm ag Ellis – er mwyn ei iechyd.[24] Ond darganfu resymau eraill dros aros yno. 'Roedd aur wedi cael ei ddarganfod yn y Transvaal yn 1886 ac yn y flwyddyn ganlynol, ffurfiodd Rhodes y *Gold Fields of South Africa Company* a gafodd Siarter yn 1889. Yn y cyfamser 'roedd wedi cymryd drosodd gwmni deiamwntau De Beers. Erbyn diwedd yr wythdegau ef oedd y dyn mwyaf pwerus yn Ne Affrica ac etholwyd ef yn Brif Weinidog y

Penrhyn yn 1890. Credai mai'r 'hil' Eingl-Saesonaidd oedd y cryfaf ar y ddaear ac 'roedd â'i fwriad ar ehangu i'r Gogledd (Rhodesia) a ffurfio tiriogaeth Brydeinig 'o Cairo i'r Cape'. Hoffai'r megalomaniac hwn ddweud y byddai'n 'meddiannu'r lleuad i'r Ymerodraeth Brydeinig' pe gallai. Yr oedd yn 'ŵr gwael ar frys'.[25]

Nid oedd Rhodes yn y Penrhyn pan gyrhaeddodd Ellis, felly aeth ymlaen ar ei daith i ymweld â Chymry Port Elizabeth, Madagascar[26] a Mauritius. Cafodd lythyr dadlennol oddi wrth Ellis J. Griffith:

> Dwed wrtha'i a fyddai gen i obaith gwneud arian yno (De Affrica); £1,500 y flwyddyn sydd arnaf eisiau (fel y gallwn roi £1,000 heibio) a dychwelyd i Gymru yn 45 oed gyda £12,000.[27]

Fodd bynnag nid i Dde Affrica, wedi'r cyfan, yr aeth Ellis Griffith i wneud arian iddo'i hun, ond i Bersia (1891-92) i weithio i'r *Imperial Tobacco Company*.

Dychwelodd Ellis i Borthladd Elizabeth ganol Ionawr '91. Y mis canlynol, cyfarfu â theulu enwog y Schreiners. Y ddau aelod enwocaf o'r teulu hwn oedd W. P. Schreiner[28], Twrnai Gwladol ac, yn hwyrach, Prif Weinidog y Penrhyn (1898-1900), a'i chwaer, y ffeminydd cynnar, Olive Schreiner (1855-1920), awdures *The Story of An African Farm* (1893) am deulu o Foeriaid. 'Roedd Ellis wedi cael llythyr o gyflwyniad i 'W.P.' gan Ellis Griffith a oedd yng Ngholeg Downing, Caer-grawnt, gydag ef yn yr wythdegau.[29] Ar ddechrau'r nawdegau 'roedd y Schreiners yn gefnogwyr i Cecil Rhodes.

Ellis oedd y gŵr gwadd yng Nghinio Gŵyl Dewi Cymry Kimberley (*Diamond Field Cambrian Society*). Daeth tyrfa i gyfarfod ag ef yn yr orsaf.[30] Y noson honno, atebodd i'r llwnc-destun 'Y Cymry Dros y Byd' gydag anerchiad a ddangosai ei fod yn symud at safbwynt Rhyddfrydwr Imperialaidd:

> Edrychai ymlaen yn ffyddiog at yr adeg pryd y gellid drwy'r gyfundrefn addysg gyfoethogi bywyd y Cymry ac anfon allan feibion Cymru i gymryd eu lle fel arloeswyr a llywodraethwyr yn yr Ymerodraeth . . . Cefais drwy fy nheithiau oleuni ar nifer o bynciau na wyddwn i o'r blaen nemor ddim amdanynt. Y mae'n syndod mor anwybodus yw'r cyhoedd ym Mhrydain ynghylch materion De Affrig: ac nid y cyhoedd yn unig, ond Tŷ'r Cyffredin hefyd. Cyfaddefaf yn rhwydd fod f'anwybodaeth innau'n debyg i dywyllwch Eifftaidd: ond mae gennyf hyn o gysur, fod y rhan fwyaf o'm cyd-aelodau yn rhodio mewn tywyllwch sydd yn fwy dudew fyth. Eithr agorwyd fy meddwl gan f'ymweliad â'r drefedigaeth hon a'm hastudiaeth o lywodraeth Natal a Mauritius.[31]

O Kimberley aeth i Bechuanaland a Bloenfontein, lle bu'n annerch Gwyddyl a Chymry ar Ddydd Gŵyl Padrig (17 Mawrth).

Ysgrifennodd lythyr at Robert Hudson o'r *Orange Free State Hotel*, yn cynnwys toriad o'r *Bloemfontein Gazette* a oedd yn amlwg wedi'i blesio:

> Mr. Ellis, M.P., who is at present in our midst is, though young, a man who has already made his mark in the House of Commons. His quaint (*sic*) questions to the Home Secretary, respecting the action of the Government in exacting the tithes in Wales, having been so artfully framed as to move the Government in bringing a Bill before the House to deal with the Welsh question. His untiring efforts in the cause of intermediate and higher education in the Principality have also been most productive, as the proposed system for that country promises to be the most complete system in the world. His organizing abilities and his close reasonings in debate have won for him the high esteem of Mr. Gladstone and Mr. John Morley; and *it is rumoured in Political circles that at the first opportunity a seat in the Cabinet will be offered to him.*[32]

Ar 10 Ebrill, rhoddwyd trydedd wledd iddo – y tro hwn gan Faer Cape Town. Amddiffynnodd bolisi Ymerodrol Ryddfrydol Prydeinig: 'Mae'r Dutchmen (*sic*) yn gydradd â chwi: rhaid i chwi eu trin yn oddefgar a pharchu eu dyheadau. Mae'r brodorion yn isradd i chwi: rhaid i chwi eu cyfodi.'[33] Edrychodd ymlaen at yr adeg y byddai cynrychiolwyr Cymru a De Affrica yn cydeistedd mewn Senedd Ymerodrol.[34]

Y noson cyn iddo hwylio adref, ar ddiwedd Ebrill 1891, crisialodd ei dröedigaeth imperialaidd mewn cinio gyda Phrif Weinidog y Penrhyn, Cecil Rhodes. Ymddengys fod y 'Colossus' wedi mesmereiddio Ellis:

> I dined with Cecil Rhodes the night before I left, and spent with him one of the most interesting evenings of my life. He is truly a *strong* man, with powerful personality and clear brain and large views. I wish he were in British politics. He would soon be leader of the Liberal party.[35]

Yn yr un llythyr, dengys Ellis yr effaith yr oedd y daith i Dde Affrica wedi cael ar ei feddwl:

> Somehow . . . on the sea, between the scenes I have gone through and the anticipation of re-entering the old life, my mind seems closed up. Like my luggage it is all under the bunk.[36]

Gellir dehongli hyn fel cyfeiriad at y newid a oedd yn mynd ymlaen yn ei isymwybod, fel canlyniad i'r profiadau a gafodd ar ei daith chwe mis.[37]

Gellir tynnu cymhariaeth drawiadol rhwng asesiad Ellis o Rhodes a'i ganmoliaeth o Parnell yn ei *Ddyddiadur* yn 1889: 'Yr wyf ers talwm wedi barnu y gallai Parnell fod yn Brif Weinidog Prydain pe dymunai hynny.'[38] Y pwynt yw, wrth gwrs, nad oedd Parnell eisiau bod yn Brif

Weinidog Prydain. Ond, erbyn 1891, yr oedd Rhodes wedi cymryd lle Parnell ym meddwl Ellis. Pan ddychwelodd i Lundain ar ddechrau Mai, darganfu fod Parnell wedi syrthio o'i safle fel arweinydd y Gwyddyl.[39]

Daw agwedd newydd Ellis allan yn glir mewn araith yn Neuadd y Penrhyn, Bangor, ar 21 Mai 1891. Cyfarfod Rhyddfrydol oedd hwn, ar y cyd gyda Lloyd George, ac mae'r gwahaniaeth pwyslais yn eu hareithiau yn arwyddocaol. Canolbwyntiodd Ellis ar ei daith i Dde Affrica:

> Our countrymen there are prosperous, influential . . . In merchant offices, in banks and in newspaper offices they hold responsible positions. The Mayors of the chief towns are Welshmen, and Welshmen manage the Government railway system of the whole colony . . . the more generously the claims of Wales are recognised, the greater will be the awakening of Wales' interest in the widening concerns of the Empire.[40]

Mewn geiriau eraill, 'roedd Ellis eisiau i Gymru gael 'lle yn yr haul'. 'Roedd pwyslais araith Lloyd George yn gwbl wahanol. Ymosododd yn ergydiol ar system-ddosbarth Prydain:

> We are connected with a movement which, if it succeeds, as I am confident it must, will free the sacred soil of our country from the grinding exactions of every landlord and monopolist (Cheers) . . . If you mean to get better hours, better wages, better conditions of life, you can only do so by trenching upon the enormous rent-rolls and revenues of landlords and monopolists of every description . . . Incalculable wealth and indescribable poverty dwell side by side . . . Things must be equalised! (Cheers).[41]

Gellir dyddio yr ymwahanu rhwng Tom Ellis a Lloyd George o'r cyfarfod hwn ym Mangor ar 21 Mai 1891. Symudodd Ellis i'r dde tra symudodd Lloyd George i'r chwith.

Yn Hydref 1891, gwahoddodd Ellis i Feirionnydd Syr Charles Dilke, awdur *Greater Britain*; a chafodd lythyr yn condemnio ei ymddygiad oddi wrth olygydd Anghydffurfiol y *British Weekly*, Robertson Nicoll.[42] Cyhoeddodd Nicoll ymosodiad agored ar Ellis yn Ionawr 1892:

> The Welsh members have long been yearning for a leader . . . There was a false hope raised of a 'Parnell of Wales' who would gather together the scattered ranks under one leadership. But his Parnellism turned out, on nearer acquaintance, something of a disappointment. We should be far from denying Mr. Thomas Ellis' many qualities, or questioning his courtesy and genial amiability. But though a pleasant-spoken young Welshman, he is far from being a Parnell. He has been out-distanced by Mr. Lloyd George.[43]

Ar 29 Ebrill 1892, camodd Ellis yn gyfan gwbl i'r gwersyll imperialaidd, drwy annerch cinio Clwb yr Ymerodraeth Brydeinig yn Llundain:

> The more Wales has the power of initiative and decision in her own affairs, the more closely will she be bound to the very texture of the imperial fabric.[44]

'Roedd taith Ellis i Dde Affrica wedi ei droi o fod yn Rhyddfrydwr Radicalaidd i fod yn Rhyddfrydwr Imperialaidd.[45] Dim ond trwy ddeall hyn y gellir egluro ymddygiad Ellis yn y nawdegau.

Y cwestiwn tyngedfennol a wynebai Ellis yn 1892 oedd: a fyddai'n derbyn swydd mewn llywodraeth Ryddfrydol tu allan i'r Cabinet, pe cynigid un iddo? Rhoddwyd y cwestiwn iddo gan arweinydd y Blaid ei hun – Gladstone, wedi araith gan Ellis yn cyflwyno Mesur Tir ym Mawrth 1892.[46] Galwodd Gladstone ef i'w ystafell. 'Dywedodd y G.O.M. ei fod wedi edrych dros ei ffigurau yn fanwl ac wedi eu cael yn "right to the decimal"; – addawodd Gomisiwn Brenhinol yn y man. A gofynnodd hefyd i Tom a gymerai swydd yn ei Weinyddiaeth.'[47] Sylwer mai'r gair 'Gweinyddiaeth' a ddefnyddiodd Gladstone – nid oedd yn cynnig swydd i Ellis yn y Cabinet; ond gwelai y gallai Ellis fod yn beryglus heb ei ffrwyno. Y mis canlynol, awgrymwyd swydd benodedig i Ellis gan ei ffrind, Arthur Acland: gofynnodd a fyddai Ellis yn fodlon bod yn is-chwip os oedd Acland yn cael ei apwyntio yn Brif-chwip?[48] Mae'r cynnig yn ymddangos yn chwerthinllyd – awgrymu y dylai arweinydd Cymru Fydd ddod yn is-chwip, ond yr oedd Acland yn ddifrifol.[49]

Trafododd Ellis yr awgrym gyda Chadeirydd Cyngor Sir y Fflint ac ymgeisydd Rhyddfrydol Bwrdeistrefi'r Fflint, Herbert Lewis, ac mae'n amlwg ei fod wedi cynghori Ellis i wrthod. Yn Mai, mewn ymateb i wrthodiad Ellis, ysgrifennodd Acland ddau lythyr hysteraidd, yn cyhuddo Ellis o'i fradychu ef:

> It is the heaviest of blows in connection with public life or private friendship that I have up to now experienced in my life.[50]

Dilornodd gyngor Lewis:

> – who knows as yet nothing about parliamentary life and whose notice was perhaps inevitably, such as it was.[51]

Ar y llaw arall, yr oedd Lewis yn gofyn:

> Why is Acland in such a hurry and so peremptory? Are you sure your constitution is strong enough to stand the strain? . . . And, apart from your health, the great question is – have we most to gain from cooperation or independence? If the former, will you, as a member of the ministry, be allowed to preach Welsh Home Rule?[52]

'Roedd Llewelyn Williams yn gofyn yr un cwestiynau yn y *South Wales Star:*

> Mr. T. E. Ellis . . . able and gifted as he is, derives his greatest power from the fact that he is so representative a Welshman . . . The time of his trial is yet to come. He has done great and noble work for Wales as one of Her Majesty's Opposition; it remains to be seen what he and his colleagues will do for Wales when the Liberals are in office . . . Will the Welsh members be prepared to vote against a Liberal Government which refuses to satisfy Welsh aspirations?[53]

Y mis cyn yr etholiad cyffredinol, 'roedd Acland yn dal i geisio perswadio Ellis i fod yn is-chwip, ond, o leiaf, pasiodd ymlaen iddo, yn ei lythyr, ddisgrifiad Edward Grey o beth 'roedd derbyn swydd chwip yn ei olygu:

> You will be asked to sacrifice all your time to drop the threads which are at present in your hands and to give up the independent position which it will perhaps be most difficult to reoccupy after having once been in office.[54]

Ni allai Ellis ddadlau nad oedd wedi cael ei rybuddio. Cynhaliwyd Etholiad Cyffredinol Gorffennaf 1892 chwe blynedd i'r mis ar ôl etholiad 1886. 'Roedd paratoadau helaeth o du'r Rhyddfrydwyr, yn arwain i ymgyrch rymus, dan gyfarwyddyd y trefnwr athrylithgar, Schnadhorst. Ymddangosodd Datgysylltiad ar bob un o faniffestai'r ymgeiswyr Rhyddfrydol Gymreig; rhoddwyd pynciau Cymreig ymlaen yn unig gan Gymru Fydd: e.e. Lloyd George, J. Herbert Lewis, J. Herbert Roberts.[55] Ym Mhrydain, 'roedd mwyafrif i'r Rhyddfrydwyr a'u cefnogwyr o 355 yn erbyn 315 i'r Ceidwadwyr – mwyafrif o ddeugain. Yng Nghymru, 'roedd y fuddugoliaeth Ryddfrydol yn ysgubol: 31 yn erbyn 3 Ceidwadwr – mwyafrif o wyth-ar-hugain – y fuddugoliaeth fwyaf i Ryddfrydiaeth yng Nghymru yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Fel y gwelir o Dabl A, adenillwyd seddi Maesyfed, Mynwy a Phenfro gan y Rhyddfrydwyr, a chadwasant y seddi a enillwyd ganddynt mewn is-etholiadau ers 1886. 'Roedd dros ddwy-ran-o-dair o'r aelodau'n enedigol yng Nghymru a daethai'r mwyafrif ohonynt o gefndir mewn diwydiant, busnes neu'r gyfraith; dim ond dau ohonynt (A.S. Brycheiniog a Maesyfed) a oedd yn dirfeddianwyr. Disgynnodd y cyfartaledd oedran o dan hanner-cant, ac 'roedd dwywaith gymaint o garfan Cymru Fydd ag a oedd yn cefnogi y Rhyddfrydwyr Imperialaidd.

## TABL A.

## PROSOPOGRAFFI O'R AELODAU SENEDDOL CYMREIG AR ÔL ETHOLIAD 1892

| ETHOLAETH | A.S. | PLAID | OED | ENWAD | CEFNDIR |
|---|---|---|---|---|---|
| ABERTAWE (Rhanbarth) | Syr H. H. VIVIAN | Rh. | 71 | Anglican | Diwydiannwr |
| ABERTAWE (Tref) | Robert BURNIE | Rh. | 50 | Ymneull-tuwr | Busnes |
| ARFON | William RATHBONE | Rh. | 73 | Y. | Busnes |
| BRYCHEINIOG | W. FULLER-MAITLAND | Rh. | 50 | A. | Tirfeddiannwr |
| CAERDYDD | Syr Edward REED | Rh. | 62 | A. | Adeiladwr Llongau |
| CAERFYRDDIN (Bwrd) | Maj. Evan R. JONES | Rh. | 53 | Y. | Consyl |
| CAERFYRDDIN (Gn.) | J. Lloyd MORGAN | Rh. | 31 | Y. | Bargyfreithiwr |
| CAERFYRDDIN (Dn.) | Abel THOMAS | Rh. | 46 | Y. | Bargyfreithiwr |
| CAERNARFON (Bwrd.) | D. LLOYD GEORGE | Rh. | 29 | Y. | Cyfreithiwr |
| CEREDIGION | W. BOWEN ROWLANDS | Rh. | 56 | A. | Bargyfreithiwr |
| DINBYCH (Dn.) | G. OSBORNE MORGAN | Rh. | 58 | A. | Bargyfreithiwr |
| DINBYCH (Gn.) | J. Herbert ROBERTS | Rh. | 29 | Y. | Marchnadwr |
| DINBYCH (Bwrd.) | Anrh. G. T. KENYON | C. | 52 | A. | Bargyfreithiwr |
| EIFION | J. Bryn ROBERTS | Rh. | 49 | Y. | Bargyfreithiwr |
| Y FFLINT (Bwrd.) | J. Herbert LEWIS | Rh. | 33 | Y. | Cyfreithiwr |
| Y FFLINT | Samuel SMITH | Rh. | 56 | Y. | Busnes |
| MAESYFED | Frank EDWARDS | Rh. | 40 | A. | Tirfeddiannwr |
| MEIRIONNYDD | T. E. ELLIS | Rh. | 33 | Y. | Ysgrifennydd Preifat |
| MERTHYR TYDFIL | D. A. THOMAS | Rh. | 36 | Y. | Perchennog Glo |
| | W. P. MORGAN | Rh. | 48 | Y. | Cyfreithiwr |
| MÔN | Thomas LEWIS | Rh. | 71 | Y. | Marchnadwr |
| MORGANNWG (Ganol) | S. T. EVANS | Rh. | 33 | Y. | Bargyfreithiwr |
| MORGANNWG (De) | Arthur J. WILLIAMSS | Rh. | 56 | Y. | Bargyfreithiwr |
| MORGANNWG (Dn.) | Alfred THOMAS | Rh. | 52 | Y. | Busnes |
| MORGANNWG (Gn.) | David RANDELL | Rh. (Llafur) | 40 | Y. | Cyfreithiwr |
| MYNWY(De) | F. C. MORGAN | C. | 58 | A. | Tirfeddiannwr |
| MYNWY (Gog.) | T. P. PRICE | Rh. | 48 | A. | Bargyfreithiwr |
| MYNWY (Gn.) | C. M. WARMINGTON | Rh. | 50 | Y. | Bargyfreithiwr |
| MYNWY (Trefynwy) | Albert SPICER | Rh. | 45 | Y. | Diwydiannwr |

| ETHOLAETH | A.S. | PLAID | OED | ENWAD | CEFNDIR |
|---|---|---|---|---|---|
| PENFRO | W. R. DAVIES | Rh. | 28 | Y. | Bargyfreithiwr |
| PENFRO (Rhanbarth) | C. F. Egerton ALLEN | Rh. | 45 | A. | Bargyfreithiwr |
| RHONDDA | W. ABRAHAM | Rh. (Llafur) | 50 | Y. | Undebwr |
| TREFALDWYN (Rhanbarth) | Syr P. PRYCE-JONES | C. | 58 | A. | Dilledydd |
| TREFALDWYN | Stuart RENDEL | Rh. | 58 | A. | Diwydiannwr |

## TABL B.

## DADANSODDIAD O AELODAU SENEDDOL RHYDDFRYDOL CYMRU, 1892

| Cyfartaledd Oed | Ymneulltuwyr | Anglicanwyr | Diwydiant/ Busnes | Y Gyfraith | Tirfedd-ianwyr |
|---|---|---|---|---|---|
| 47.0 | 22 | 9 | 12 | 15 | 2 |

## TABL C.

## AGWEDDAU GWLEIDYDDOL AELODAU SENEDDOL RHYDDFRYDOL CYMRU, 1892

| CYMRY FYDDWYR | RHYDDFRYDWYR GLADSTONAIDD | RHYDDFRYDWYR IMPERIALAIDD |
|---|---|---|
| D. LLOYD GEORGE | Syr HENRY VIVIAN | TOM ELLIS |
| J. HERBERT LEWIS | ROBERT BURNIE | Syr EDWARD REED |
| J. HERBERT ROERTS | WILLIAM RATHBONE | W. PRITCHARD MORGAN |
| ALFRED THOMAS | W. FULLER-MAITLAND | ALBERT SPICER |
| S. T. EVANS | THOMAS LEWIS | |
| WILLIAM ABRAHAM | ABEL THOMAS | |
| D. A. THOMAS | W. BOWEN ROWLANDS | |
| FRANK EDWARDS | G. OSBORNE MORGAN | |
| DAVID RANDELL | J. BRYN ROBERTS | |
| | SAMUEL SMITH | |
| | J. LLOYD MORGAN | |
| | A. J. WILLIAMS | |
| | T. P. PRICE | |
| | C. M. WARMINGTON | |
| | W. R. DAVIES | |
| | C. F. EGERTON ALLEN | |
| | STUART RENDEL | |
| | E. R. JONES | |

Wedi buddugoliaeth Lloyd George dros Syr John Puleston yng Nghaernarfon, dilynodd prosesiwn mawr y tu ôl i faner yn darllen: 'Buddugoliaeth Cymru Fydd!'[56] Yna, mewn araith yng Nghonwy, rhoddodd Lloyd George rybudd i Gladstone:

> It is very important that Liberal statesmen should understand clearly why Wales is so overwhelmingly Liberal at the present moment. It is not to install one statesman in power. The Welsh Members want nothing for themselves, but they must this time get something for our country, and I do not think they will support a Liberal Ministry – I care not how illustrious the Minister may be who leads it – unless it pledges itself to concede to Wales those great measures of reform upon which Wales has set its heart.[57]

Ar 8 Awst, cyfarfu'r Blaid Gymreig yn ystafell Pwyllgor rhif 7 yn Nhŷ'r Cyffredin ac ail-etholwyd Rendel yn Gadeirydd a D. A. Thomas a Herbert Lewis yn Chwipiaid. Pasiodd yr Aelodau benderfyniad yn unfrydol y dylai Datgysylltiad ddod yn ail i'r Iwerddon yn Araith y Frenhines.[58] Drwy bleidleisio gyda'i gilydd fel bloc, gallent gael effaith sylweddol ar gwrs y llywodraeth.

Yr oedd disgwyliad cyffredinol, answyddogol, yng Nghymru y byddai penodiad Cymreig i'r Cabinet yn dilyn yr etholiad ac 'roedd siomiant pan na chafwyd un. Cynigiodd Gladstone swyddi i George Osborne Morgan, Syr Edward Reed a Stuart Rendel, ond gwrthododd y tri, gyda Rendel yn dweud wrth Gee fod yn well ganddo ddefnyddio ei gyfeillgarwch personol â Gladstone i'w gael i roi 'blaenoriaeth swyddogol i Gymru.'[59]

Y cwestiwn mawr oedd: a fyddai Tom Ellis yn derbyn y swydd o is-chwip a gynigiwyd iddo? 'Roedd Gladstone yn gyfrwys yn ogystal â bod yn ddeallus; nid oedd arno eisiau Parnell Cymreig, a gwelai y byddai'n ddefnyddiol iddo glymu arweinydd cydnabyddedig Cymru Fydd â chyfrifoldebau blinedig swydd chwip. Cofier bod Ellis wedi gwrthod swydd fel chwip y Blaid Seneddol Gymreig yn 1888. Aeth Ellis i dŷ Beriah Evans yng Nghaernarfon i drafod y sefyllfa gydag ef, Lloyd George a Herbert Lewis. Edrydd Evans hanes y cyfarfod:

> Ellis and George, together with S. T. Evans and Herbert Lewis, had mutually agreed that none of them should accept office without the consent of his three colleagues. Ellis was thus placed in a difficult situation. Before accepting, he came to Caernarfon, and at my house met Lloyd George and Herbert Lewis. Together we discussed the situation. Lloyd George was strongly opposed to the idea of his friend taking office. Herbert Lewis took the same view.[60]

'Roedd cylch mewnol Cymru Fydd, felly, yn erbyn i Ellis dderbyn y swydd. Ond rhoddwyd pwysau mawr arno gan yr arweinwyr Seisnig:

> Gwnaeth Morley imi aros am ginio. Aethom dros y maes, a dywedodd yn bendant y byddai rhaid imi gymeryd rhwyf. 'No nonsense' – meddai.[61]

Mewn rhai gwledydd, mae'r Sefydliad yn crogi gwrthwynebwyr; yn Lloegr, maent yn eu gwahodd i ginio.

'Roedd y trafodaethau hyd yn hyn wedi bod ar sail dealltwriaeth mai ffrind Ellis, Arthur Acland, a fyddai'r Prif Chwip, ond penodwyd ef i swydd bwysicach fel Gweinidog Addysg gyda sedd yn y Cabinet. 'Roedd Edward Marjoribanks (1849-1909), y Prif Chwip newydd, yn Rhyddfrydwr o'r Hen Ysgol ac felly naturiol fyddai tybio nad oedd gan Ellis unrhyw ddiddordeb pellach mewn swydd bitw o dano fel is-chwip. Cafodd gyngor clir o Gricieth:

> Y mae disgwyliad mawr yn bodoli ynghylch cysylltiad Cymru â'r Weinyddiaeth. Os na bydd yn un anrhydeddus, gwn na ymuni â hi o gwbl.[62]

Mae ystyr y llythyr yn eglur, 'roedd Lloyd George yn awgrymu na ddylai Ellis dderbyn swydd os nad oedd yn y Cabinet. Anwybyddodd Ellis y cyngor hwn ac ysgrifenodd yn ôl ato yn dweud ei fod yn derbyn swydd fel Is-chwip:

> The whole matter caused me more searching anxiety than anything else in my life. It is an experiment under difficult circumstances, but my election in 1886 was an experiment.[63]

'Roedd y potsiar wedi troi'n gipar. Cyfaddefodd Ellis mewn llythyr at Ellis J. Griffith, fod agweddau negyddol i'w benderfyniad:

> of course it has some disadvantages, e.g.
> (1) It is a sore puzzle to Welsh people.
> (2) It is arduous and very responsible during Session.[64]

'Roedd Lloyd George a Sam Evans yn meddwl bod Ellis wedi gwneud camgymeriad mawr:

> I quite agree with you that Ellis has made a great mistake in accepting office in such a broken-winded Ministry. He could have done much better work outside as an independent member without being involved in the discredit which, I fear, must befall this Administration . . . Duw a'u helpo nhw. Siôr syn.[66]

Ymhelaethodd Lloyd George ar hyn pan ddaeth yn Ganghellor y Trysorlys yn 1908:

> Gwelaf nawr y camgymeriad ofnadwy a wnaeth Tom yn derbyn y swydd a gynigiwyd iddo gan Gladstone. Talodd ormod o sylw i'r rhai a'i perswadiodd ei fod yn bwysig cael eich traed ar yr ysgol.

> Dylai fod wedi gwrthod y cynnig gyda dirmyg a phrotestio yn y wlad. Gyda'r mwyafrif o'i gyd-wladwyr yn ei gefnogi buasai'r G.O.M. wedi gorfod cynnig swydd iddo yn y Cabinet o fewn mis. Do, fe wnaeth Tom gamgymeriad mawr.[67]

Meddai J. Arthur Price, 'all hope of Welsh Nationalism doing anything for some time ended when Ellis grasped the Saxon gold'[68] – cyfeiriad at y ffaith y byddai Ellis yn cael cyflog o £1000 y flwyddyn fel is-chwip. 'Roedd penderfyniad Ellis i dderbyn swydd ddibwys yn fradychiad, oherwydd fod y penodiad, yn effeithiol, yn cau ei geg ac yn golygu na allai mwyach arwain Cymru Fydd. Yng ngeiriau Price: 'Ellis in office dare not speak, for is he not a Saxon minister?'[68] Dyma hefyd oedd barn John Gibson, golygydd y *Cambrian News*: 'Ellis is lost to Liberal Wales . . . he has become an official hack.'[69] Mae llythyr trist o law Ellis at y Prif Chwip yn Awst 1892:

> I hesitated to accept Mr. Gladstone's offer because I did not know whether its acceptance would carry with it the duty of being your co-teller in Government divisions. I desire to be assured on this point, because I consider that the position of co-teller with you would be a visible recognition of the position of Welsh Liberalism and of its recent success. In that position I would do my utmost to serve you loyally.[70]

Sylw T. Marchant Williams ar hyn oedd fod Ellis wedi cyfnewid arweinyddiaeth Cymru Fydd am 'swydd porthor' yn Nhŷ'r Cyffredin.[71] 'Roedd Ellis wedi derbyn swydd heb ddylanwad ac 'roedd ei gysylltiad â Chymru Fydd ar ben. Ond nid yn unig yr oedd wedi bradychu Cymru Fydd, yr oedd hefyd wedi ei fradychu ei hun, oblegid fod y swydd yn sarhad arno ac oherwydd fod y gwaith yn rhy galed i'w gyfansoddiad. O fewn saith mlynedd (1899) yr oedd yn marw.

Amhosibl yw deall penderfyniad Ellis – a gafodd effaith mor andwyol ar ddatblygiad Cymru – oni bai ein bod wedi astudio dylanwad ei daith i Dde Affrica ar ei feddwl. Dim ond trwy ei weld fel Rhyddfrydwr Imperialaidd o 1891 ymlaen y gellir egluro ond nid esgusodi – ei ddewis. Erbyn 1892 yr oedd wedi dod yn gyd-imperialydd ac felly yr oedd yn hawdd ei gyfethol i mewn i'r Sefydliad Seisnig fel cyd-chwip. Os oedd taith ei ffrind, O. M. Edwards, wedi arwain *O'r Bala i Genefa* (1889), 'roedd Ellis wedi teithio, mewn mwy nag un ystyr, o'r Bala i Dde Affrica.

DEWI ROWLAND HUGHES,
*Llanfyllin*

## NODIADAU

1 *Hansard*, 3edd. Gyfres, Cyfrol 303; 1400. Gweler hefyd Lewis Appleton, *Henry Richard, Apostle of Peace* (Llundain 1889), t. 204-211.
2 Gweler Hesketh Pearson, *Labby* (Llundain, 1936).
3 A. P. Thornton, *The Imperial Idea and Its Enemies* (Llundain, 1959), t.85.
4 Gweler hefyd Charles Dilke, *Problems of Greater Britain* (Llundain, 1890); B. Porter, *Critics of Empire* (Llundain, 1968); Alan Sandison, *The Wheel of Empire* (Llundain, 1967); D. Wormell, *Sir John Seeley and the Uses of History* (Caergrawnt, 1980). Am ymosodiad cyfoes ar syniadau Seeley, gweler adolygiad John Morley, 'The Expansion of England', *Macmillan's Magazine*, Chwefror 1884.
5 Araith yn Leeds, 11 Hydref 1888, cynwysedig yn Arglwydd Rosebery, *The Foreign Policy of Lord Rosebery* (Llundain, 1901). Y llyfr gorau ar Ryddfrydiaeth Imperialaidd yw, H. C. G. Matthew, *The Liberal Imperialists* (Rhydychen, 1973). Am ddadansoddiad beirniadol o safbwynt ryddfrydol, gweler J. A. Hobson, *Imperialism* (Llundain, 1902).
6 H. C. G. Matthew, *Liberal Imperialists*, t.4. Sefydlwyd y clwb yn 1881.
7 G. A. Williams, *Welsh Wizard and British Empire* (Caerdydd, 1980), t.9: 'It was then, a London-Welshman . . . who seems to have invented the expression, *British Empire*.' Gweler hefyd G. A. Williams, *The Welsh in their History* (Llundain, 1982), t.16 a *When Was Wales?* (Harmondsworth, 1985), t. 124-5.
8 Ychydig iawn o astudiaeth o imperialaeth Gymreig sydd wedi bod cyn Rhyfel De Affrica (1899-1902). Gweler Henry Pelling a K. O. Morgan, 'Wales and the Boer War', *W.H.R.*, Rhagfyr 1969.
9 Henry Morton Stanley (1841-1904); ganwyd 'John Rowlands' yn Ninbych, dihangodd o wyrcws Llanelwy ac ymfudodd i Efrog Newydd yn 1858. Aeth i Affrica fel ymchwilydd y *New York Herald* a'r *Daily Telegraph*; Ado K. Tiberondwa, *Missionary Teachers as Agents of Colonialism* (Lusaka, 1978), t. 26-7.
10 *Baner*, 20 Tachwedd 1886. Gweler A. J. A. Symons, *H.M. Stanley* (Llundain, 1933).
11 Gweler H.M. Stanley, *Through the Dark Continent* (Llundain,1878), *The Congo* (Llundain, 1885), *In Darkest Africa* (Llundain 1890) a *Through South Africa* (Llundain, 1898). Mae ymosodiad ar Stanley yn 'Welsh Notes', *Welsh Review*, Gorffenaf 1892, t.953 ac Awst 1892, t.1053. Gweler hefyd, am ddarlun o'r Congo, Joseph Conrad, *The Heart of Darkness* (Llundain, 1899).
12 Gweler K. O. Morgan, 'The Liberal Unionists in Wales', *Nat. Lib. Wales Journal* XVI, Rhif. 2 (1969).
13 Gweler *Merthyr Express*, Awst-Hydref 1888, *S.W.D.N.*, Awst-Hydref 1888. Oherwydd ei ymdrechion i ddarganfod aur yn y Dwyrain, adnabuwyd ef gan *Tarian y Gweithiwr* fel, 'yr Aelod dros China'.
14 Gweler R. Ffoulkes Griffith, 'The Responsibility of Young Wales in Relation to Historical Research', *Cymru Fydd*, Chwefror 1889, t. 74-85.
15 Tom Ellis at O. M. Edwards, 12 Chwefror 1890; cyhoeddwyd fel 'Llythyr o'r Aipht', *Cymru Fydd*, Mawrth 1890, t.191.
16 *Dyddiadur Tom Ellis*, 1 Mawrth 1890 (Ll.G.C., Papurau T. E. Ellis).
17 *Baner*, 24 Medi 1890. Paratôdd Ellis yn fanwl ar gyfer yr araith – gweler ei nodiadau yn Ll.G.C., Papurau Ellis, 9630B. Gweler hefyd "Welsh Testimonial to T. E. Ellis', *Times*, 19 Medi 1890, t.10. 'Roedd y siec am fil o bunnau yn swm sylweddol – yn cyfateb i oddeutu £30,000 heddiw.

18 *Baner*, 24 Medi 1890.
19 ibid. Gweler hefyd *Y Genedl*, 24 Medi 1890; *Y Goleuad*, Medi 1890; 'Llythyr Llundain', *Baner*, 1 Hydref 1890 a 'Tysteb T. E. Ellis', *Cymru Fydd*, Tachwedd 1890.
20 Tom Ellis at D. R. Daniel, 23 Tachwedd 1890 (Ll.G.C., Papurau Daniel). Gweler hefyd *Dyddiadur Ellis*, 1890-91 (Ll.G.C., Papurau Ellis).
21 Tom Ellis at M. E. Ellis, 24-26 Tachwedd 1890 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 2767-2774).
22 Tom Watkins (Gol.), *Excalibur*, 7 Mawrth 1890, papur Cymry De Affrica. Gweler 'Cymry ar Wasgar', *Cymru Fydd*, Mai 1890, t. 318-320.
23 H. K. Hudson at T. E. Ellis, 23 Tachwedd 1890 (Ll.G.C. Papurau Ellis).
24 Gweler A. F. B. Williams, *Cecil Rhodes* (Llundain, 1968).
25 N. Masterman, *The Forerunner* (Abertawe, 1972), t.154.
26 Gweler llythyr Tom Ellis o Madagascar at y *S.W.D.N.*, 12 Rhagfyr 1890.
27 E.J.G. at T.E.E., 11 Rhagfyr 1890 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 736). Ganwyd Ellis Jones Griffith (1860-1926) yn Birmingham a gweithiodd fel bargyfreithiwr. Gweler T. I. Ellis, ' Ellis Jones Griffith', *T.H.S.C.* (I), (1961), t. 125-137.
28 Uchel Gomisiynydd De Affrica yn Llundain (1914-1918). Bu farw Schreiner yn Llandrindod yn 1919; *D.N.B.* (1912-21), t.484.
29 E.J.G. at T.E., 31 Hydref 1890 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 782). Ceir disgrifiad o ymweliad Ellis yn ei lythyrau at Mary Ellis, 17 Chwefror 1891 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 2767-2774) ac R. Hudson, 23 Chwefror 1891 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 2796-2801).
30 T. Ellis at Mary Ellis, 1 Mawrth 1891 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 2770-2774).
31 *Kimberley Daily Independent*, 7 Mawrth 1891. Y mae rhaglen gŵyl y Diamond Fields Cambrian Society yn dangos fod y gynulleidfa wedi canu 'Rule Britannia'; (Ll.G.C., Cardiau Ellis, 4413). Gweler llythyr Tom Ellis at W. P. Evans, 11 Mawrth 1891.
32 Toriad o'r *Bloemfontein Gazette*, 13 Mawrth 1891; cynwysedig mewn llythyr gan T. Ellis at Robert Hudson, 15 Mawrth 1891 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 2801). Mae Ellis wedi tanlinellu y frawddeg olaf. Am adroddiad ar ei anerchiad Gŵyl Padrig gweler y *Bloemfontein Gazette*, 20 Mawrth 1891.
33 *Cape Argus*, 9 Ebrill 1891.
34 Ibid.
35 Tom Ellis at D. R. Daniel, 1 Mai 1891 (Ll.G.C., Papurau Daniel, 376).
36 ibid.
37 Gweler traethawd ymosodol D. Gwenallt Jones, 'Tom Ellis', *Y Fflam*, Awst 1949, t. 3-8, lle ceir beirniadaeth lem iawn ar gymeriad Ellis yn dilyn ei daith i Dde Affrica.
38 *Dyddiadur Tom Ellis*, 22 Chwefror 1889 (Ll.G.C., Papurau Ellis).
39 Gweler F.S.L. Lyons, *The Fall of Parnell* 1890-91 (Llundain, 1960). Sylwer fod cyfnod cwymp Parnell yn cyfateb yn union i daith Tom Ellis.
40 W. R. P. George, *Lloyd George: Backbencher* (Llandysul, 1983), t.53. Gweler R. Robinson, J. Gallagher & A. Denny, *Africa and the Victorians* (Llundain, 1963).
41 Herbert du Parcq, op. cit., t. 130-2.
42 W. Robertson Nicoll at T. Ellis, 22 Hydref 1891 (Ll.G.C., Papurau Ellis, 1546). Gweler hefyd amheuon y *South Wales Star*, 20 Tachwedd (1891).
43 *British Weekly*, Ionawr 1892.
44 Dyfynnwyd yn N. Masterman, *The Forerunner* (Abertawe, 1972), t. 195-96.

45 Cf. Masterman, wrth gyfeirio at yr araith uchod: 'His humanitarianism had turned into a mild kind of imperialism.' Dau hanesydd arall sydd yn cynnwys Ellis ymysg y Rhyddfrydwyr Imperialaidd yw: D. A. Hamer, *Liberal Politics in the Age of Gladstone and Rosebery*, t. 333-4, a H. C. G. Mathew, *Liberal Imperialists*, t.9.
46 *Hansard*, 3edd. Gyfres, 16 Mawrth 1892.
47 Tystiolaeth Owen Rowland Jones yn T. I. Ellis, *Cofiant* II, t. 193-4.
48 Acland at Ellis, 14 Ebrill 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis). Gofynnodd Acland i Ellis losgi ei lythyrau, ond ni wnaeth. Llosgodd Acland atebion Ellis.
49 Acland at Ellis, 22 Ebrill 1892 (U.G.C. Papurau Ellis).
50 Acland at Ellis 17-20 Mai 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis).
51 ibid.
52 J. H. Lewis at T. Ellis, 19 Mai 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis). Mewn llythyr at D. R. Daniel, dywedodd Ellis, 'I am still in torturing perplexities about the matter we discussed that Sunday afternoon', Ellis at D. R. Daniel, 23 Ebrill,1892 (Ll.G.C., Papurau D. R. Daniel).
53 *South Wales Star*, 20 Mai 1892.
54 Nodyn gan Edward Grey at A. H. D. Acland, cynwysedig mewn llythyr oddi wrth Acland at Ellis, 7 Mehefin 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis).
55 John Herbert Roberts (1863-1955); mab John Roberts, marchnatwr coed ac A.S. Y Fflint (1885-92). 'Roedd y tad a'r mab yn byw yn 'Bryngwenallt', Abergele. Aeth J. H. Roberts ar daith o amgylch y byd gyda J. H. Lewis; gweler J. H. Roberts, *A World Tour: being a Year's Diary, written 1884-85* (Llundain, 1886). Etholwyd J. H. Roberts yn A.S. Gorllewin Dinbych (1892-1918), cyn cael ei greu yn Arglwydd Clwyd yn 1919.
56 Gweler Beriah Evans *The Life Romance of Lloyd George* (Llundain, 1915), t.52. Adnabuwyd Lloyd George yn ei etholaeth fel y 'Grand Young Man'.
57 *North Wales Observer and Express*, 29 Gorffennaf 1892.
58 *S.W.D.N.*, 9 Awst 1892. Gweler hefyd *British Weekly*, 14 Gorffennaf, 24 Awst 1892.
59 Rendel at Gee, 30 Hydref 1892 (Ll.G.C., Papurau Gee, 8308C, 274).
60 Beriah Evans, *The Life Romance of Lloyd George* (Llundain, 1915), t.75.
61 Ellis at D. R. Daniel, 24 Gorffennaf 1892 (Ll.G.C., Papurau Daniel).
62 Lloyd George at Ellis, 16 Awst 1892, (Ll.G.C., Papurau Ellis.)
63 Ellis at Lloyd George, 21 Awst 1892 (Copi, ibid.)
64 Ellis at Ellis J. Griffith, 25 Awst 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis Griffith).
65 Lloyd George at Sam Evans, 19 Awst 1892 (Ll.G.C., Papurau S. T. Evans). Dyma hefyd oedd agwedd D. A. Thomas, yn ôl Ellis ei hun.
66 Lloyd George mewn cyfweliad gyda D. R. Daniel, Medi 1908 (Ll.G.C., Papurau Daniel).
67 J. A. Price at John Edward Lloyd, 14 Hydref 1892 (C.P.G.C., Papurau Lloyd, 314, 449).
68 ibid. (C.P.G.C., Papurau Lloyd, 314, 450).
69 Golygyddol, *Cambrian News*, 28 Hydref 1892.
70 Ellis at E. Marjoribanks, Awst 1892 (Ll.G.C., Papurau Ellis).
71 T. Marchant Williams, *The Welsh Members of Parliament* (Caerdydd, 1894), t.14.